

Syniadau ar chwarae synhwyraidd

'Rwy'n gwneud llawer o chwarae synhwyraidd ac wedi gofyn i'r holl rieni ddarparu gwisg chwarae flêr i'w plentyn. Mae'r dillad hyn yn aros yn fy lleoliad ac yn cael eu golchi ar ddiwedd y dydd.

Mae rhieni'n hapus iawn â hyn gan eu bod yn gwybod bod eu plant yn cael llawer o hwyl, ond nid oes ganddyn nhw unrhyw olchi ychwanegol ac nad yw'n difetha dillad "daclus" eu plentyn. Mae gen i hefyd siwtiau gwlyb ac esgidiau glaw mewn gwahanol feintiau fel y gall yr holl blant fwynhau'r awyr agored waeth beth yw'r tywydd.

Mae hyn mor bwysig achos os yw rhiant yn anghofio cot neu esgidiau plentyn, nid yw'n ein rhwystro ni i gyd rhag mynd allan i'r

awyr agored'
(Alison Sussex)

'Mae rhieni plant dan fy ngofal yn gwybod y byddaf yn mynd â'r plant y tu allan beth bynnag fo'r tywydd. Unwaith y bydd plentyn wedi gwisgo'n briodol mae'n ymddangos bod llai o rwystrau i fwynhau'r chwarae allanol a synhwyraidd'

(Ruth Davies)

'Rwy'n ysgrifennu'r hyn rydyn ni wedi bod yn ei wneud yng nghyfnodolyn y plentyn ac rydw i hefyd yn anfon lluniau'n rheolaidd ac yn egluro buddion chwarae synhwyraidd i'r rhieni'

(Claire Chapman)

'Mae rhieni'n gwbl ymwybodol pan fyddant yn ymweld gyntaf am bwysigrwydd chwarae synhwyraidd a faint rydyn ni'n ei wneud yn y lleoliad. Cyfeirir rhieni at fy sianeli cyfryngau cymdeithasol fel y gallant weld faint o chwarae synhwyraidd y bydd gan y plant fynediad ato. Rwy'n ei gwneud hi'n gwbl glir i rieni o ethos fy lleoliad a phethau fel y ffaith ein bod ni'n bendant yn broses dros gynnyrch felly ni fydd eu plentyn yn dod â chreffft bert adref bob dydd. Yr hyn y byddant yn ei gael yw profiadau ymarferol bywyd go iawn mewn lle sy'n estyniad o'u cartref. Byddant yn cael digon o luniau o'u plentyn yn cymryd rhan mewn chwarae ystyrlon, hunangyfeiriedig.

Rwy'n rhannu erthyglau a blogiau gyda rhieni fel y gallant gael dealltwriaeth ddyfnach o pam ei bod yn bwysig i'w plant gael y profiadau hyn'

(Amanda Calloway)